Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 8 Gorffennaf 2019 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

## 2. CYFRIFON 2018/19

2.1 Cyflwynwyd adroddiadau "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2018/19 i Gyd-Bwyllgor y GwE ar 22 Mai 2019. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

2.2 Mae'r tanwariant net terfynol am 2018/19 yn £18,971. Roedd yr adroddiad "alldro" cyflwynwyd i'r Cyd-Bwyllgor ar 22 Mai 2019 yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r balans.

2.3 **Yn Atodiad A, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2018/19 (yn amodol ar archwiliad), wedi'i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt "llywodraethu".

2.4 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yna, bydd yr Archwilwyr yn cynhyrchu adroddiad "ISA 260", sy'n manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte, ac wedi'i gyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru yn enw'r Archwilydd Cyffredinol, i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 11 Medi 2019.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2018/19.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.